Annwyl Gwsmer,

## <u>Ymgysylltu â'n cwsmeriaid – Rhannu eich barn</u>

### Newidiadau i Wasanaeth Allgymorth Symudol Llandeilo
### Yn cael effaith ar Wasanaethau Symudol Ffarmers, Rhydcymerau a Llansawel

Mae'n dda gennym roi gwybod i chi ein bod yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymuned Ffarmers drwy gyflwyno gwasanaeth symudol, gan ddechrau ddydd Gwener 4 Medi 2026 am 10:30. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei redeg o'r tu allan i Neuadd y Pentref Ffarmers, Ffarmers, Llanwrda, SA19 8LQ.

Ers i'r gwasanaeth uchod gau, rydym wedi parhau i weithio er mwyn cael hyd i ateb i adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau lleol. Mae'r Gwasanaeth Symudol yn Swyddfa Bost symudol ar fwrdd cerbyd a addaswyd yn benodol I ddod â gwasanaethau Swyddfa'r Post a chynhyrchion manwerth i gymunedau heb ddibynnu ar adeilad sefydlog. Sefydlu Gwasanaethau Symudol yw'r ffordd orau o adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned.

Er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth symudol newydd, bydd rhai newidiadau i'r gwasanaethau symudol presennol a gynigir gan gerbyd Llandeilo, a bydd rhain yn cael effaith ar oriau agor gwasanaethau symudol Rhydcymerau a Llansawel o'r wythnos sydd yn dechrau ddydd Llun 31 Awst 2026.

Mae manylion pellach am y newidiadau i'r gwasanaethau hyn ar gael hefyd ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn lleol i roi'r newyddion da i gwsmeriaid. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd, er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall yr hyn sy'n digwydd i Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Rydym yn awyddus i adfer gwasanaethau i gymuned Ffarmers cyn gynted â phosibl, ac felly rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid, yn enwedig ynghylch y canlynol:

- Pa mor addas ydych chi'n meddwl yw'r lleoliad newydd a pha mor hawdd ydyw i'w gyrraedd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am y dyddiau a'r oriau agor sy'n cael eu hargymell?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan 2 Medi 2026. Ni fyddwn yn eich ateb yn unigol, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni gwblhau ein cynlluniau.

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**Postoffice.co.uk**

Mae'r manylion am eich gwasanaeth newydd ar ddiwedd y llythyr hwn. I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn, ymwelwch â'n Hyb Ymgynghori drwy postofficeviews.co.uk, ac yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i ymgysylltu â'r gwasanaeth hwn naill ai yn ôl enw'r gwasanaeth, y côd post, neu'r côd unigryw **357642**

Unwaith y bydd y cynlluniau wedi eu cwblhau, byddwn yn gosod poster yn lleol a bydd ein Hyb Ymgynghori yn amlinellu'r prif sylwadau a gafwyd a'n hymateb iddynt.

Mae'r ymgysylltiad hwn yn cael ei wneud yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae darn sy'n ymwneud ag Ymgysylltu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r gwasanaeth newydd hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Lowri McCausland*

**Lowri McCausland**
**Arweinydd Newidiadau Mân-Werthu**

**Sut i gysylltu â ni**

postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk
Ffôn: 03452 66 01 15
Ffôn testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments

**Dyma'r cyfan sydd raid ei ychwanegu er mwyn i'ch llythyr ein cyrraedd.**

Eisiau rhoi eich barn yma nawr? Sganiwch fan hyn.

Os nad oes gennych sganiwr côd QR ar eich ffôn, gallwch gael un yn eich storfa apiau.

Mae eitemau a anfonir drwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, ac felly dylai ymatebion drwy Radbost gael eu hanfon i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgysylltu. Nid yw dyddiau gwaith yn cynnwys Sadyrnau na Suliau. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl yr adeg cau yn cael eu hystyried.

# Manylion am y Gwasanaethau Symudol newydd

| Swyddfa Bost Ffarmers | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Y tu allan i Neuadd y Pentref<br>Ffarmers<br>Llanwrda<br>SA19 8LQ | Bydd dewis o wasanaethau ar gael. |
| **Oriau Agor** | **Mynediad** |
| Gwener 10:30 – 11:30 | Mae gris i mewn i'r cerbyd symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i hwyluso mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl ag anableddau. |

**Cyrraedd yno**

Bydd modd parcio yn agos at leoliad y cerbyd symudol.

---

## Manylion am y newid i oriau agor y Gwasanaeth Symudol presennol:

**Gwasanaeth Symudol Rhydcymerau**

Y tu allan I Swyn-y-nant, Ar y B4337, Rhydcymerau, Llandeilo, SA19 7SP

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | 13:15 – 14:15 |
| Mawrth | 13:30 – 14:45 |
| Mercher | Dim gwasanaeth |
| Iau | 13:30 – 14:45 |
| Gwener | 11:45 – 13:00 |
| Sadwrn | Dim gwasanaeth |
| Sul | Dim gwasanaeth |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | 13:15 – 14:15 |
| Mawrth | 13:30 -14:45 |
| Mercher | Dim gwasanaeth |
| Iau | 13:30 -14:45 |
| Gwener | Dim gwasanaeth |
| Sadwrn | Dim gwasanaeth |
| Sul | Dim gwasanaeth |

## Manylion am y newid i oriau agor y Gwasanaeth Symudol presennol:

**Gwasanaeth Symudol Llansawel**

Maes Parcio Neuadd y Pentref, Llansawel, Llandeilo, SA19 7JN

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | 14:30 – 15:30 |
| Mawrth | Dim gwasanaeth |
| Mercher | Dim gwasanaeth |
| Iau | Dim gwasanaeth |
| Gwener | 10:30 – 11:30 |
| Sadwrn | Dim gwasanaeth |
| Sul | Dim gwasanaeth |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | 14:30 – 15:30 |
| Mawrth | Dim gwasanaeth |
| Mercher | Dim gwasanaeth |
| Iau | Dim gwasanaeth |
| Gwener | 12:00 -13:00 |
| Sadwrn | Dim gwasanaeth |
| Sul | Dim gwasanaeth |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol – er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun)**

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau  i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviewsco.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn* ***<u>Ymgysylltu</u>*** *– pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd mewn lleoliad newydd
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol pan fydd newidiadau i leoliad man gwasanaeth Swyddfa'r Post
- Adleoli cangen pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli (e.e. problem gyda'r adeilad). Mae hyn er mwyn osgoi neu wneud yn llai tebygol colli gwasanaeth i gymuned lle cafodd lleoliad arall i gangen ei nodi[2]  a lle nad oes unrhyw ddirywiad o ran cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post (wrth fynd i mewn i'r adeilad a'r tu mewn iddo).

Er y bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen wedi ei wneud eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid megis mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn. Rhoddwn bedair wythnos o rybudd, neu, os nad yw hynny'n bosibl, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y gallwn.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol3, y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[4], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau cyrchu yn y gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef  cyrff eirioli statudol annibynnol y defnyddwyr.***

<u>Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:</u>
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda,  fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod eirioli priodol i ddefnyddwyr (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff eirioli i ddefnyddwyr yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk** **Ffon:  03452 66 01 15k**
**Comments@postoffice.co.uk** **Ffôn testun: 03457 22 33 55**
**FREEPOST Your Comments**

2Pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli , er mwyn osgoi neu ei wneud yn llai tebygol fod gwasanaeth i gymuned yn cael ei golli gall y bydd rhaid i ni wneud penderfyniad masnachol i adleoli cangen Swyddfa'r Post. Os felly, ni fyddwn yn ymgynghori ar adleoli, ond byddwn yn dilyn y broses ymgysylltu ac yn ceisio adborth ar drefniadau mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn.

3 Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Llywodraeth Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Plwyf neu Gymuned.

4 Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir pawb y cyfeirir atynt yn 3 a 4 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn nhw,  fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.